# RHESYMU

# 3CRh14SA

# Y sgriptiau ar gyfer y prawf rhesymu

Profion Rhifedd Cenedlaethol

119457

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gwybodaeth i weinyddwyr

Yn y llyfryn hwn, mae'r sgriptiau y byddwch yn eu darllen i'r dysgwyr wrth gyflwyno'r ddwy set o ddeunyddiau ysgogi sy'n gysylltiedig â'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

Mae'r deunyddiau ysgogi'n elfen hollbwysig o'r prawf am eu bod yn galluogi dysgwyr i ddeall cyd-destun y cwestiynau. Maen nhw hefyd yn golygu bod llai o waith darllen i'r dysgwyr a'u bod yn poeni llai am y prawf.

Mae'n **hanfodol** felly eich bod yn paratoi ymlaen llaw ar gyfer y prawf drwy fynd drwy'r ddwy sgript yn fanwl, ynghyd â'r cyflwyniadau sydd ar y sleidiau (ar y ddisg gyfrifiadurol). **Rhaid** i chi sicrhau eich bod yn deall y cyflwyniadau a'ch bod yn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn hyderus. Os na fydd y dysgwyr yn deall, mae perygl mawr iddyn nhw fethu ag ymateb yn iawn i gwestiynau'r prawf.

### *Cyn gweinyddu'r cyflwyniad*

Darperir gwybodaeth fanwl am weinyddu'r cyflwyniad yn y *Canllawiau gweinyddu profion* sydd gyda'r prawf ac yn y *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014* ar wefan Dysgu Cymru dysgu.cymru.gov.uk

Yn union cyn i chi ddangos y cyflwyniad i'r dysgwyr, gwnewch yn siŵr bod:

- pawb yn gallu gweld a chlywed, a'u bod yn canolbwyntio ar yr hyn rydych chi'n ei gyflwyno
- yr ysgol wedi gwneud trefniadau mynediad ar gyfer unrhyw ddysgwr sydd eu hangen arno
- y dechnoleg yn gweithio.

### *Gweinyddu'r cyflwyniad*

Wrth dreialu'r profion mewn ysgolion, daeth yn amlwg ei bod yn hollbwysig i'r cyflwynydd sicrhau bod dysgwyr yn deall y cyd-destunau a'u bod yn frwdfrydig yn eu cylch.


Mae eich rôl felly'n bwysig iawn i'ch dysgwyr. Felly, os gwelwch yn dda:






- gwnewch yn siŵr ei fod yn ddiddorol! Er mwyn denu sylw a diddordeb y dysgwyr, mae angen iddyn nhw weld eich bod chi, y cyflwynydd, yn hyderus ac yn mwynhau'r deunyddiau. Defnyddiwch oslef eich llais a byddwch yn frwdfrydig wrth gyflwyno. Gallwch actio'r rhannau, defnyddio gwahanol leisiau neu ddefnyddio unrhyw fethodoleg briodol i sicrhau bod y dysgwyr yn deall y cyd-destunau
- gofynnwch gwestiynau i ddenu sylw'r dysgwyr. Er enghraifft, pe bai'r cyd-destun yn ymwneud â draenogod, gallech ddechrau drwy ofyn iddyn nhw pwy sydd wedi gweld neu ddal draenog erioed. Ceisiwch sicrhau eu bod yn ymateb i'r cyd-destun, a'u bod yn awyddus i gael gwybod rhagor
- gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys pob elfen yn y sgript – maen nhw yno am reswm da
- gwnewch yn siŵr eu bod yn deall (yn weledol, ac, os bydd angen, drwy holi'r dysgwyr) ac wedyn ymhelaethwch os bydd hynny'n briodol. Fodd bynnag, os byddwch yn ymhelaethu, ni allwch ar unrhyw adeg ymestyn y drafodaeth neu'r sylwebaeth am y cynnwys rhifol y tu hwnt i'r hyn sydd yn y cyflwyniad, oherwydd gallai hyn helpu'r dysgwyr gyda chwestiynau'r prawf. Yn y sgript, efallai y dywedir wrthych pa faterion na ddylech eu trafod (mae'r holl wybodaeth o'r fath mewn print italig – yn amlwg, ni ddylech ddarllen y darnau hyn ar goedd).



| Ni allwch helpu'r dysgwyr mewn unrhyw ffordd a allai ddylanwadu ar eu perfformiad yn y prawf. |
|---|

## Y cyflwyniad cyntaf: Ffion y broga

Dylech ddarllen y testun sydd yn y bocsys ar y dde (ond nid y print italig) i'r dysgwyr. Gallwch ddefnyddio eich geiriau eich hun, neu roi rhagor o esboniad am gyd-destunau, os bydd angen. Fodd bynnag, ni allwch helpu'r dysgwyr gyda'r gwaith rhifedd a gaiff ei asesu.

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 1 |  | *(Cadwch y sleid hon ar y sgrin nes eich bod yn barod i ddechrau'r cyflwyniad.)* |
| Sleid 2 |  | Dyma Ffion y broga.<br>Mae hi'n dda iawn am neidio! |




| | | |
|---|---|---|
| Sleid 3<br>gydag animeiddio | <br><br> | *(O'r pwynt hwn ymlaen, peidiwch â defnyddio'r bysellau saeth ar y cyfrifiadur. Yn hytrach, defnyddiwch y botymau saeth sy'n ymddangos ar y sgrin i lywio.)*<br>Mae Ffion yn dechrau yma *(pwyntiwch ati)* ac mae'n neidio ymlaen. Gwyliwch hi'n neidio ymlaen . . .<br>*(Cliciwch ar fotwm y saeth fawr ar y chwith i'r sgrin, a bydd hi'n neidio i 3. Cliciwch arno eto a bydd hi'n neidio i 7. Cliciwch arno eto a bydd hi'n neidio i 10)*<br>Felly, pan ddechreuodd Ffion, neidiodd ymlaen 3 er mwyn glanio ar ddeilen lili rhif 3. Wedyn, neidiodd ymlaen 4 *(cyfrwch yn uchel)* i lanio ar rif 7. Faint neidiodd hi ymlaen felly? Dyna ni, neidiodd hi ymlaen 3 i lanio ar 10<br>*(Nawr cliciwch ar y botwm saeth eto, a bydd y testun o dan y dail lili'n ymddangos. Darllenwch y testun yn uchel ac wedyn cliciwch ar y botwm saeth eto. Gallwch ddewis chwarae hyn eto; ond os nad oes angen gwneud hyn, anwybyddwch y dewis a chliciwch ar y botwm i symud ymlaen at yr olygfa nesaf.)* |
| Sleid 3<br>parhad yr animeiddio | <br> | Y tro hwn, gallwn weld bod Ffion yn mynd i neidio ymlaen 1, wedyn 5, wedyn 4 *(pwyntiwch at y testun perthnasol)*. Ar ba ddail lili y bydd hi'n glanio?<br>*(Trafodwch a chytunwch gyda'ch gilydd y bydd hi'n glanio ar 1, wedyn 6, wedyn 10*<br>*Nawr dangoswch y neidiau drwy glicio i ddangos pob cam o'r animeiddio, gan ddweud yn uchel beth sy'n digwydd.*<br>*Wedyn cliciwch ar y botwm saeth eto. Gallwch ddewis chwarae hyn eto; ond unwaith eto, os nad oes angen gwneud hyn, anwybyddwch y dewis a symudwch i'r sgrin nesaf.)* |


| | | |
|---|---|---|
| Sleid 3<br>parhad yr animeiddio | <br> | Nawr mae Ffion yn mynd i neidio ymlaen 2, 2 a 6 – ond mae'n gallu eu neidio mewn unrhyw drefn.<br>Gall wneud hyn mewn 3 ffordd. Allwch chi ddweud wrtha'i am bob un o'r 3?<br>*(Ceisiwch annog y dysgwyr i drafod ymhlith ei gilydd ac wedyn gofynnwch am atebion, ond peidiwch â thrafod y dulliau a ddefnyddiwyd.)*<br>Da iawn! Rydych chi wedi dod o hyd i bob un o'r 3 ffordd wahanol. Gadewch i ni ei gwylio hi . . .<br>*(Wrth glicio sawl gwaith, bydd y 3 chanlyniad posibl yn cael eu datgelu. Wrth i'r broga symud, disgrifiwch y symudiad yn uchel, e.e. mae'n neidio 6)*<br><br>Nawr rydych chi'n mynd i ateb ychydig o gwestiynau am Ffion ac am sut mae'n neidio ymlaen. Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi yn eich llyfryn. A phan welwch y gair STOPIWCH cofiwch stopio a gwirio'ch gwaith.<br>Cofiwch ddangos eich gwaith bras er mwyn i rywun arall allu deall beth rydych chi'n ei wneud a pham.<br>Mae gennych chi 15 munud. |

## Yr ail gyflwyniad: Gemau

Dylech ddarllen y testun sydd yn y bocsys ar y dde (ond nid y print italig) i'r dysgwyr. Gallwch ddefnyddio eich geiriau eich hun, neu roi rhagor o esboniad am gyd-destunau, os bydd angen. Fodd bynnag, ni allwch helpu'r dysgwyr gyda'r gwaith rhifedd a gaiff ei asesu.

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 1 |   | *(Cadwch y sleid hon ar y sgrin nes eich bod yn barod i ddechrau'r cyflwyniad.)* |
| Sleid 2 |  | Ydych chi'n gwybod beth yw hon? Ie, coron yw hi sy'n cael ei gwisgo gan frenin neu frenhines.<br>Beth yw'r rhain? *(pwyntiwch at y gemau)* Ie, gemau ydyn nhw.<br>Pam mae gan frenhinoedd a breninesau emau ar eu coronau tybed? *(Ymatebion tebygol yw eu lliw, eu bod nhw'n disgleirio, a hefyd eu bod nhw'n dangos pa mor gyfoethog yw'r brenin neu'r frenhines.)*<br>Ni all y rhan fwyaf o bobl fforddio prynu gemau go iawn – maen nhw'n rhy ddrud o lawer. Ond gallwch chi brynu . . . |
| Sleid 3 |  | . . . gemau ffug.<br>Mae'r rhain yn rhatach o lawer ond maen nhw'n dal i edrych yn hyfryd. |

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 4 |  | Mae'r ddau blentyn hyn wrth eu bodd yn gwisgo i fyny. Ac maen nhw wrth eu bodd gyda gemau! Maen nhw'n cynilo'u harian poced i gyd i brynu gemau ffug i'w glynu ar goronau.<br>Mae'n anodd penderfynu pa emau i'w prynu oherwydd eu bod nhw'n eu hoffi nhw i gyd. Ac mae'n rhaid iddyn nhw ddefnyddio'u rhifedd i'w helpu i gyfrifo'r costau. |
| Sleid 5 |  | Faint yw'r em werdd yma? *(pwyntiwch)*<br>A faint yw'r em oren? *(pwyntiwch)*<br>Felly faint mae'n ei gostio i brynu'r em werdd a'r em oren?<br>Gadewch i ni weld . . . |
| Sleid 6 |  | Dyna ni, 10c, oherwydd 6 + 4 = 10 |
| Sleid 7 |  | Mae hwn yn fwy anodd. Siaradwch â'r person nesaf atoch chi. Allwch chi weld faint fyddai un em borffor yn ei gostio?<br>*(Ceisiwch eu hannog i drafod, wedyn rhowch gymorth i'r dysgwyr, gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn os bydd angen, i ddeall bod yr em borffor yn costio 8c oherwydd 5 + 5 + 8 = 18)*<br>Gadewch i ni weld . . . |

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 8 |  | Da iawn!<br><br>Nawr rydych chi'n mynd i ateb ychydig o gwestiynau am y gemau maen nhw'n eu prynu. Trowch i dudalen 6 yn eich llyfryn.<br><br>Cofiwch ddangos eich gwaith bras er mwyn i rywun arall allu deall beth rydych chi'n ei wneud a pham.<br><br>Mae gennych chi 15 munud. |

© Hawlfraint y Goron 2014